



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 356 – 17 Mai 2012
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 355

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 355.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

Noson Gwylwyr - cynhaliwyd noson lwyddiannus ym Mhontardawe yn dilyn newidiadau i batrwm a fformat y noson. Llongyfarchodd y Cadeirydd bawb oedd yn rhan o'r noson ac fe drefnir danfon y sylwadau at yr holl aelodau.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Ailstrwythuro - Nododd IHJ fod y cyfnod ymgynghorol â'r staff yn dod i ben heddiw (17.05.2012). Mae nifer o sylwadau wedi dod i law ac fe fydd y tîm rheoli yn trafod yr adborth ddydd Llun nesaf.

BBC – Roedd y Swyddogion wedi cynnal sawl cyfarfod â'r BBC. Nodwyd un o'r prif feysydd trafod sef y posibilrwydd o gydleoli swyddfeydd. Gwahoddwyd IHJ i gynnal sesiwn holi ac ateb i staff y BBC ac fe fydd RhTD yn dychwelyd i S4C ar gyfer sesiwn i'r staff.

DCMS – Cynhaliwyd cyfarfod â'r DCMS i drafod newid i remit masnachol a digidol S4C.

Hyfforddiant – Yn dilyn adolygiad, awgrymwyd newidiadau i drefniant ariannu hyfforddiant drwy Skillset, Cyfle a lefi TAC. Yn dilyn trafodaeth cymeradwyodd yr Aelodau'r newidiadau. Awgrymwyd y bydd angen edrych ar yr oblygiadau masnachu teg ac y dylid cynnwys hyfforddi yn y trafodaethau rhwng y BBC ac S4C.

4. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys

Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig. Cyfeiriodd at y newidiadau i'r amserlen gan nodi'r ymateb da i **Heno** ar ei newydd wedd. Roedd yn awyddus i greu amserlen sy'n haws i'w llunio, sy'n gallu cychwyn rhaglenni am 21.30 ac sy'n cynnwys rhaglenni 1 awr o hyd. Cadarnhawyd nad oedd yr amserlen newydd yn golygu gwariant ychwanegol.

5. Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys

Adroddodd CE yn ôl i'r Awdurdod yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynnwys ar 10.05.2012. Roedd GR wedi rhoi cyflwyniad ar yr arlwy Chwaraeon dros 2011. Darperir copi o'r cyflwyniad i'r holl aelodau. Cafwyd trafodaeth ar yr adborth yn dilyn y Noson Gwylwyr a gynhaliwyd ym Mhontardawe.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol